Archwilio Cymru
Audit Wales

1 Cwr y Ddinas / 1 Capital Quarter
Caerdydd / Cardiff
CF10 4BZ
Tel / Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Carol Shillabeer
Prif Weithredwr
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Carlton Court
Parc Busnes Llanelwy
Llanelwy
LL17 0JG

**Cyfeirnod:** PA346/AD/hcj

**Dyddiad cyhoeddi:** 21 Ebrill 2026

# Defnydd o ddyraniad ariannol strategol Llywodraeth Cymru 2020-2025

Annwyl Carol

Byddwch yn siŵr o gofio ein bod wedi cadw peth amser yn ein rhaglen waith archwilio yn y Bwrdd Iechyd i adolygu'r defnydd o gyllid cymorth ariannol strategol sydd wedi'i ddarparu gan Lywodraeth Cymru ers mis Tachwedd 2020.

Nod y gwaith hwn oedd ceisio sicrwydd bod y Bwrdd Iechyd yn gallu dangos sut mae wedi defnyddio'r arian hwn a pha enillion sydd wedi'u sicrhau o'r buddsoddiad hwn. Mae ein gwaith hyd yma wedi canolbwyntio ar gadarnhau swm y dyraniadau a dderbyniwyd ers mis Tachwedd 2020 a sefydlu dichonoldeb ymgymryd â gwaith manylach i asesu sut mae'r cyllid hwn wedi cael ei ddefnyddio.

Roeddem yn gallu casglu rhywfaint o wybodaeth gychwynnol gyda chefnogaeth y Tîm Cyllid. Fodd bynnag, roedd yn amlwg bod y ffordd y mae rhywfaint o'r cyllid strategol wedi'i wasgaru ar draws adrannau a'i ymgorffori mewn cyllidebau yn mynd i'w gwneud hi'n anodd iawn i ddod i benderfyniad ar ei ddefnydd a'i effaith yn gywir. Rydym yn cydnabod bod y rhesymau dros hyn yn rhannol yn ymwneud â materion yr ydym wedi adrodd arnynt yn flaenorol, gan gynnwys cymhwyster cyfrifon 2022-23 y Bwrdd Iechyd, yn ogystal â materion a nodwyd yn ein hadroddiad ar Effeithiolrwydd y Bwrdd yn 2023. Yn seiliedig ar hyn, roeddem wedi oedi ein hymholiadau archwilio ac wedi ystyried hyfywedd ymgymryd ag unrhyw waith pellach ar ddefnydd y Bwrdd Iechyd o'i gyllid cymorth strategol.

Ein casgliad yw na fyddai'n ymarferol mynd ar drywydd gwaith pellach, manylach ar ddefnydd y Bwrdd Iechyd o gyllid cymorth strategol. Rydym yn deall na fyddai'r Bwrdd Iechyd yn gallu darparu'r holl wybodaeth sydd ei hangen i gefnogi gwaith o'r fath. Felly, mae'n debygol y byddai staff Archwilio Cymru a Bwrdd Iechyd yn treulio llawer o amser yn ceisio bwrw ymlaen â gwaith a fyddai'n annhebygol o ddarparu unrhyw fewnwelediad ystyrlon pellach.

Mae hyn wrth gwrs yn peri pryder oherwydd ein disgwyliad fyddai i'r Bwrdd Iechyd allu dangos yn glir sut mae wedi defnyddio'r holl gyllid cymorth strategol y mae wedi'i dderbyn, yn ogystal â'r enillion o'r buddsoddiad hwnnw.

Er na fyddwn yn bwrw ymlaen â gwaith mwy manwl, rydym serch hynny yn dal i allu tynnu rhai prif negeseuon at ei gilydd o'r gwaith a wnaed hyd yma. Mae'r rhain fel a ganlyn:

- rhwng mis Tachwedd 2020 a diwedd mis Mawrth 2026, derbyniodd y Bwrdd Iechyd £461 miliwn ychwanegol o gyllid cymorth strategol i gefnogi trawsnewid gwasanaethau, gwell perfformiad a chyflawni cydbwysedd ariannol;

- roedd £40 miliwn y flwyddyn o'r cyllid blynyddol ychwanegol yn benodol i dalu sefyllfa diffyg hanesyddol y Bwrdd Iechyd. Fe wnaeth y cyllid hwn helpu’r Bwrdd Iechyd i sicrhau cydbwysedd ariannol i ddechrau. Fodd bynnag, cofnododd y Bwrdd Iechyd ddiffygion diwedd blwyddyn yn 2023-24 a 2024-25 ac er ei fod wedi gosod cynllun ariannol cytbwys ar gyfer 2025-26, roedd yn rhagweld diffyg o £17.4 miliwn ym mis 11 o 2025-26;

- roedd ansawdd y cynllunio ar gyfer defnyddio'r cyllid ychwanegol yn amrywio'n sylweddol rhwng 2021-22 a 2023-24, ond mae wedi gwella o 2024-25 ymlaen, yn unol â chamau ehangach i gryfhau rheolaethau ariannol a llywodraethu ar draws y sefydliad;

- nid yw'r Bwrdd Iechyd yn gallu dangos tystiolaeth o ble mae'r adnoddau ychwanegol wedi'u gwario, ac a oedd cyfran sylweddol o'r cyllid cymorth strategol wedi'i wario yn unol â disgwyliadau Llywodraeth Cymru;

- gan gydnabod anawsterau wrth feintioli ble mae'r cyllid wedi'i wario, mae'r gallu i ddeall i ba raddau y mae'r cyllid wedi cefnogi gwella gwasanaethau yn heriol; ac

- y gall y Bwrdd Iechyd ddangos ei fod wedi monitro defnyddio'r adnodd yn ddigonol, neu effaith y cyllid cymorth strategol.

Mae'r atodiad sydd ynghlwm wrth y llythyr hwn yn darparu rhywfaint o wybodaeth bellach o dan bob un o'r themâu uchod.

Fe wnaethom hefyd ddefnyddio ein gwaith Asesiad Strwythuredig 2025 i geisio gwybodaeth lefel uchel pellach am brosesau rheoli'r Bwrdd Iechyd ynghylch y defnydd o'r cyllid cymorth strategol yn ystod 2025-26. Mae'r gwaith hwnnw wedi dangos bod y Bwrdd Iechyd wedi cryfhau ei ddull o asesu sut mae'r cyllid yn cael ei ddefnyddio. Mae cynlluniau'n cael eu hail-werthuso yn erbyn meini prawf cliriach sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau cenedlaethol a lleol a'r manteision a ddaw ar gyfer gwasanaethau rheng flaen. Rydym yn nodi fod y Bwrdd Iechyd yn bwriadu parhau i ddatblygu ei broses flaenoriaethu ar gyfer y cyllid fel rhan o'i ddatblygu rhaglen newid.

Rydym yn deall bod dibyniaeth fawr yn dal i fod ar y cyllid i dalu cyflog staff presennol sy'n golygu nad oedd fawr ddim ar ôl i ariannu mentrau trawsnewid newydd. Mae'n gadarnhaol, fodd bynnag, gweld yr awydd i sicrhau bod rolau craidd yn cael eu cefnogi trwy gyllideb sylfaenol y Bwrdd Iechyd yn hytrach nag o'r cyllid cymorth strategol.

Fe wnaethom hefyd nodi rhai pryderon yn yr asesiad strwythuredig eleni am oedi yn y cytundeb diwygiedig o ran defnyddio'r cyllid hwn. Effeithiodd hyn ar allu'r Bwrdd Iechyd i ddechrau prosiectau trawsnewid mewn modd amserol yn ystod 2025-26 ac mae'n rhywbeth y bydd angen i'r Bwrdd Iechyd fyfyrio arno ar gyfer y blynyddoedd dilynol.

Gyda'i gilydd felly, mae'r gwaith rydyn ni wedi'i wneud wedi tynnu sylw at gryfhau asesiad o ddefnydd o'r cyllid wrth symud ymlaen. Fodd bynnag, nid yw'r darlun hanesyddol yn glir mewn perthynas â gwireddu manteision. Rydym yn cymryd rhywfaint o sicrwydd o'r ffaith bod y trefniadau presennol i oruchwylio'r defnydd o'r cyllid yn gryfach. Fodd bynnag, mae tystiolaeth gyfyngedig iawn o hyd i ddangos bod y cyllid wedi cefnogi trawsnewid gwasanaeth gwirioneddol neu y gellir ei briodoli i berfformiad gwell.

Byddem yn awgrymu bod y llythyr hwn yn cael ei gynnwys ym mhapurau'r cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Archwilio fel bod aelodau'r Pwyllgor yn cael gweld ein gwaith yn y maes hwn a gallant gymryd sicrwydd priodol gan aelodau perthnasol y Weithrediaeth.

Er mwyn cynorthwyo gyda hynny, byddai'n ddefnyddiol derbyn ymateb ysgrifenedig gennych y gellir ei rannu gyda'r Pwyllgor Archwilio, ac sy'n cynnwys y wybodaeth ganlynol:

- A oes gan y Bwrdd Iechyd unrhyw gynlluniau i ddisgrifio'n fanylach sut mae'r cyllid cymorth strategol wedi'i ddefnyddio hyd yma a'r manteision sydd wedi'u gwireddu, ac os oes, beth yw'r cynlluniau hynny;

- Beth yw cynlluniau'r Bwrdd Iechyd i ddarparu diweddariadau posibl i'r pwyllgor a'r Bwrdd perthnasol ar ddefnydd ac effaith y cyllid cymorth strategol; a

- O ystyried bod derbyn parhaus y £42 miliwn y flwyddyn i gefnogi gwelliannau i wasanaethau gofal wedi'i gynllunio, gofal heb ei drefnu ac iechyd meddwl yn amodol ar gyflawni cydbwysedd ariannol, pa drefniadau sydd ar waith i liniaru'r risg na fydd Llywodraeth Cymru yn darparu'r cyllid hwnnw mwyach.

Edrychaf ymlaen at dderbyn eich ymateb i'r uchod.

Cofion cynnes

Andrew Doughton
**Rheolwr Archwilio Perfformiad**

## Atodiad: Rhagor o wybodaeth

**Erbyn diwedd mis Mawrth 2026, bydd y Bwrdd Iechyd wedi derbyn £461 miliwn ychwanegol o gyllid cymorth strategol i gefnogi trawsnewid gwasanaethau, gwell perfformiad a chyflawni cydbwysedd ariannol.**

Ym mis Tachwedd 2020, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar y pryd, becyn o gymorth ariannol i'r Bwrdd Iechyd. Roedd y cymorth ariannol strategol hwn i gwmpasu'r sefyllfa ddiffyg hanesyddol, i wella perfformiad mewn gofal wedi'i gynllunio a gofal heb ei drefnu, i gefnogi trawsnewid gwasanaethau ac i gryfhau gwasanaethau iechyd meddwl. Y dyraniad ychwanegol i ddechrau oedd £297 miliwn ar gyfer cyfnod o dair blynedd a hanner a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2024, ond mae'r cyllid wedi parhau i'r blynyddoedd dilynol ac yn dod i gyfanswm o £461 miliwn hyd at ddiwedd blwyddyn ariannol 2025-26. Mae'r tabl isod yn crynhoi ein dealltwriaeth o sut y bwriedir defnyddio'r cyllid cymorth strategol.

| Blwyddyn Ariannol | Cwmpasu diffyg hanesyddol<br>£m | Trawsnewid a gwella gofal wedi'i gynllunio a gofal heb ei drefnu<br>£m | Gwella gwasanaethau iechyd meddwl<br>£m | Cyfanswm<br>£m |
|---|---|---|---|---|
| **Dyraniad cychwynnol Llywodraeth Cymru** | | | | |
| Hydref 2020-Mawrth 2021 | 40 | 10.3 | 0.7 | 51 |
| 2021-22 | 40 | 30 | 12 | 82 |
| 2022-23 | 40 | 30 | 12 | 82 |
| 2023-24 | 40 | 30 | 12 | 82 |
| **Is-gyfanswm** | **160** | **100.3** | **36.7** | **297** |
| **Dyraniad parhaus dilynol gan Lywodraeth Cymru** | | | | |
| 2024-25 | 40 | 30 | 12 | 82 |
| 2025-26 | 40 | 30 | 12 | 82 |
| **Prif gyfanswm** | **240** | **160.3** | **60.7** | **461** |

**Fe wnaeth y cyllid ychwanegol helpu i ddechrau i sicrhau cydbwysedd ariannol, ond cofnododd y Bwrdd Iechyd ddiffygion diwedd blwyddyn yn 2023-24 a 2024-25 ac roedd yn rhagweld diffyg o £17.4 miliwn ar gyfer diwedd 2025-26**

Roedd darparu £40 miliwn bob blwyddyn wedi helpu'r Bwrdd Iechyd i gyflawni cydbwysedd ariannol ar gyfer y blynyddoedd 2020-21, 2021-22 a 2022-23. Fodd bynnag, roedd sefyllfa ddiffyg o £24.3 miliwn yn 2023-24 ac er i'r sefyllfa wella ar gyfer 2024-25, roedd y Bwrdd Iechyd yn dal i gofnodi diffyg o £7.65 miliwn. Ar gyfer 2025-26, roedd y Bwrdd Iechyd yn rhagweld diffyg diwedd blwyddyn o £17.4 miliwn, ar ôl ymrwymo i ddechrau i sefyllfa o gydbwysedd ariannol.

**Roedd ansawdd y cynllunio ar gyfer defnyddio'r cyllid ychwanegol yn amrywio'n sylweddol rhwng 2021-22 a 2023-24 ond mae wedi gwella o 2024-25 ymlaen**

Yn 2021, fe wnaethom adolygu cynlluniau cychwynnol y Bwrdd Iechyd ar gyfer defnyddio'r dyraniad ariannol strategol. Roedd y gwaith hwnnw'n gallu rhoi sicrwydd bod gan y Bwrdd Iechyd gynlluniau clir ar gyfer sut roedd yn bwriadu gwario'r cyllid ychwanegol, er ein bod wedi nodi rhai pryderon ynghylch cyflymder datblygu achosion busnes.

Roedd y cynlluniau ar gyfer sut y byddai'r cyllid yn cael ei ddefnyddio yn 2022-23 wedi'u nodi'n glir yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig yr oedd y Bwrdd Iechyd wedi'i ddatblygu ar y pryd. Ni chynhyrchwyd unrhyw fanylion ar sut y byddai'r cyllid cymorth strategol yn cael ei ddefnyddio yn ystod 2023-24 ond o 2024-25 ymlaen mae tystiolaeth o sefyllfa well gyda chynigion manylach yn cael eu datblygu.

**Nid yw'r Bwrdd Iechyd yn gallu rhoi tystiolaeth a yw cyfran sylweddol o'r cyllid cymorth strategol wedi'i wario yn unol â'r disgwyliadau**

Fe wnaethom ofyn i'r Bwrdd Iechyd am fanylion am sut y gwariodd y cyllid. Rhoddodd wybodaeth am sut y cofnodwyd yr arian yn ei gyfrifon. Yna fe wnaethom brofi 14 cynllun i wirio a ddefnyddiwyd y cyllid fel y bwriadwyd.

Roedd y Bwrdd Iechyd yn gallu darparu manylion ychwanegol ar gyfer tri o'r rhain, ond ar gyfer yr 11 arall, mae'r ffordd y cofnodwyd gwariant yn golygu nad oes tystiolaeth ddibynadwy bod yr arian wedi'i ddefnyddio fel y cynlluniwyd. Roedd hyn yn

rhannol oherwydd bod y cyllid ychwanegol wedi'i amsugno i gyllidebau gwasanaeth ehangach yn ystod 2022-23 a 2023-24.

Mae gwybodaeth am gyfrifon a ddarparwyd i ni hefyd yn dangos bod rhywfaint o'r cyllid ychwanegol a fwriadwyd i'w ddefnyddio ar gyfer gofal wedi'i gynllunio, gofal heb ei drefnu a thrawsnewid wedi'i ddefnyddio mewn gwirionedd ar gyfer ariannu ymrwymiadau presennol a swyddi craidd mewn meysydd eraill gan gynnwys digidol, AD ac yn y tîm llywodraethu corfforaethol.

### Ni all y Bwrdd Iechyd ddangos ei fod wedi monitro defnydd neu effaith cyllid cymorth strategol Llywodraeth Cymru

Ni chanfuom unrhyw dystiolaeth bod y Bwrdd Iechyd a Llywodraeth Cymru wedi nodi disgwyliadau'n glir ar gyfer monitro ac adrodd ar y defnydd o'r cyllid cymorth strategol ar y dechrau. Er ein bod wedi nodi bod y Bwrdd a'r pwyllgorau wedi goruchwylio cynlluniau ar gyfer sut roedd y Bwrdd Iechyd yn bwriadu defnyddio'r cyllid, ni chanfuom unrhyw dystiolaeth o oruchwylio a oedd y cyllid wedi'i ddefnyddio fel y cynlluniwyd ac a yw wedi cael yr effaith a fwriadwyd.

### Mae'r graddau y mae'r cyllid wedi cefnogi gwella gwasanaethau yn amrywiol

Mae'n ymddangos bod y cymorth strategol wedi cael ychydig o effaith ar berfformiad gofal heb ei drefnu y Bwrdd Iechyd gyda metrigau allweddol yn parhau i ddangos y pwysau sylweddol sy'n wynebu'r gwasanaethau hyn. Bu rhai gwelliannau nodedig mewn rhai meysydd gofal wedi'i gynllunio, gan gynnwys cleifion gyda'r aros hiraf a gostyngiad mewn amseroedd aros Atgyfeirio at Driniaeth 104 wythnos ac amseroedd aros cleifion allanol cyntaf 52 wythnos. Fodd bynnag, mae perfformiad mewn meysydd allweddol eraill yn parhau i fod yn bryderus ac mae'r galw cyffredinol yn parhau i fod yn uchel. Dylid nodi hefyd, ar gyfer y cyfnod 2022-23 i 2025-26, bod y Bwrdd Iechyd wedi derbyn £149 miliwn o gyllid adfer gofal wedi'i gynllunio yn ychwanegol at y cyllid cymorth strategol.

Ymddengys bod cyllid i gefnogi trawsnewid a gwella gwasanaethau iechyd meddwl wedi bod yn fwy llwyddiannus. Gellir gweld gwelliannau ym mhrydlondeb asesiadau a ddarperir gan wasanaethau iechyd meddwl sylfaenol lleol lle mae safonau cenedlaethol bellach yn cael eu cyflawni'n gyson, a gyda'r nifer fwyaf o oedolion a phlant a welir gan wasanaethau gofal eilaidd bellach gyda chynllun triniaeth. Mae yna hefyd sefyllfa well ar ymyriadau therapiwtig i oedolion a phlant.